YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gweithgaredd practis cyffredinol: Gorffennaf i Medi 2024

Gwybodaeth am apwyntiadau mewn practisau cyffredinol gan gynnwys dadansoddi modd, math o ymarferydd ac ymgynghoriad; a gweithgareddau ychwanegol penodol ar gyfer Gorffennaf i Medi 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 19 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 19 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-gorffennaf-i-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Y prif bwyntiau** (https://www.llyw.cymru#161464)

**Nodiadau** (https://www.llyw.cymru#161466)

**Diwygio data** (https://www.llyw.cymru#161468)

**Contact details** (https://www.llyw.cymru#161470)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-gorffennaf-i-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Y prif bwyntiau

## Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024

- Amcangyfrifwyd bod 4.7 miliwn o apwyntiadau wedi'u trefnu mewn practisau cyffredinol, sef gostyngiad o 4.9% ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Mynychwyd 94.8% o'r apwyntiadau, sef cynnydd o 0.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Amcangyfrifwyd bod 72,000 o apwyntiadau wedi'u trefnu bob diwrnod gwaith, sef lleihad o 6.4% ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol ac amcangyfrifwyd bod 68,000 o apwyntiadau wedi'u mynychu fesul diwrnod gwaith, sef lleihad o 6.1% ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 65.7% o'r apwyntiadau a fynychwyd yn rhai wyneb yn wyneb, sef cynnydd o 1.2 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 33.0% o'r apwyntiadau a fynychwyd yn rhai o bell, sef lleihad o 1.3 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 1.3% o'r apwyntiadau a fynychwyd yn ymweliad cartref, cynnydd o 0.1 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 66.7% o'r apwyntiadau a fynychwyd gyda meddyg teulu neu ragnodydd annibynnol, sef cynnydd o 0.2 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 33.3% o'r apwyntiadau a fynychwyd gyda nyrs, gweithiwr proffesiynol perthynol i iechyd neu aelod arall o staff clinigol, sef lleihad o 0.2 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 63.8% o'r apwyntiadau a fynychwyd am resymau cronig, rhesymau a gynlluniwyd neu resymau nad oeddent yn acíwt, sef lleihad o 0.1 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 36.2% o'r apwyntiadau a fynychwyd am resymau brys neu acíwt, sef cynydd o 0.1 o bwyntiau canran ers yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.

Yn ogystal ag apwyntiadau, cafodd:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-gorffennaf-i-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

- 400,000 o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau arbenigol eu gwneud a 160,000 o nodiadau ffitrwydd eu cyhoeddi.
- 6.5 miliwn o alwadau eu derbyn, sy'n cyfateb i 100,000 bob diwrnod gwaith. Atebwyd chwech allan o ddeg galwad o fewn dwy funud.
- 1.8 miliwn o lythyrau neu negeseuon e-bost eu hanfon, 1.8 miliwn o negeseuon testun eu hanfon a'u derbyn, a 1.5 miliwn o geisiadau digidol eu cyflwyno.

# Nodiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar ddata a dynnwyd o'r Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol ar 29 Tachwedd 2024.

# Diwygio data

Mae data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2023 a mis Mehefin 2024 wedi'u diwygio yn unol â'n **polisi diwygiadau cynlluniedig** (https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-adroddiad-ansawdd). Roedd newidiadau bach ar lefel Cymru, gyda newidiadau yn amrywio rhwng llai na 0.1% a 0.4% ar gyfer y data ynghylch apwyntiadau a rhwng llai na 0.1% a 2.9% ar gyfer y data ynghylch gweithgareddau ychwanegol dethol.

Bydd y data ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2024 a mis Medi 2024 yn cael eu diwygio yn y cyhoeddiad nesaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-gorffennaf-i-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Contact details

Ystadegydd: Craig Thomas
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithgaredd-practis-cyffredinol-gorffennaf-i-medi-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).